GRîP FFRAMWAITH IECHYD A LLES ANIFEILIAID CYMRU

Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ym Mharc Cathays, Caerdydd ar 3 Mawrth 2015

Yn bresennol:

| | |
|---|---|
| Peredur Hughes | Cadeirydd |
| Christianne Glossop | Prif Swyddog Milfeddygol Cymru |
| Joanna Price | |
| Huw Davies | |
| Ifan Lloyd | |
| David Davies | |
| Moss Jones | |

Llywodraeth Cymru

| | |
|---|---|
| Carol Harris | Swyddfaôr Prif Swyddog Milfeddygol (OCVO) |
| Janet Perry | Swyddfaôr Prif Swyddog Milfeddygol (OCVO) |

<u>Eitem Agenda 1: Croeso</u>

1. Croesawodd y Cadeirydd bawb i bedwerydd cyfarfod y GrÜp.

<u>Eitem Agenda 2: Cofnodion a Phwyntiau Gweithredu o Gyfarfod 3 Rhagfyr</u>

2. Cafodd y cofnodion terfynol aôr pwyntiau gweithredu wediôu diweddaru oôr cyfarfod diwethaf eu e-bostio at AelodauôrGrÜp ym mis Rhagfyr fel rhan oôr papurau ar gyfer y cyfarfod hwn. Mae mwyafrif y pwyntiau gweithredu wediôu cwblhau. Mae rhai pwyntiau gweithredu ar waith o hyd ac mae eraill wediôu cyflwyno iôw trafod yn y cyfarfod hwn.

3. Gofynnodd Huw a oedd y GrÜp yn teimlo eu bod yn cael digon o wybodaeth gan y Cyngor Lles Anifeiliaid Fferm (FAWC). Cytunodd y GrÜp y byddaiôn fuddiol pe baent yn cael gweld cofnodion cyfarfodydd FAWC.

Pwynt Gweithredu 1 ï Huw i anfon cofnodion cyfarfodydd FAWC at yr Ysgrifenyddiaeth i gael eu dosbarthu.

<u>Eitem Agenda 3: Diweddariad gan y Cadeirydd</u>

4. Cafwyd y diweddariad canlynol gan y Cadeirydd;

¶ Cynllun Datblygu Gwledig Cymru (RDP Cymru) ï yn cysylltu ©ôr Strategaeth Dileu Dolur Rhydd Feirysol mewn Gwartheg (BVD) ï Eglurodd y Cadeirydd ei fod ef a John Griffiths (Cadeirydd yr Is-grÜp BVD) wedi cwrdd © Terri Thomas ar 4 Chwefror i drafod sut y gallaiôr Is-grÜp BVD wneud cais am gyllid gan yr RDP i helpu i ddatblyguôr gwaith y maeôr Is-grÜp BVD yn awyddus iôw wneud. Eglurodd y Cadeirydd ei fod wedi bod yn gyfarfod positif iawn. Roedd angen gwaith yn awr i ddatblygu datganiad o ddiddordeb iôw gyflwyno ym mis Mai gyda chais llawn i ddilyn a fyddaiôn cael

ei gyflwyno yn yr Hydref.

- Bwrdd Iechyd a Lles Anifeiliaid Lloegr (AHWBE) ï Buôr Cadeirydd a Chris Hale (Pennaeth T´m Polisi Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid a Chlefydau Endemig) yng nghyfarfod AHWBE ar 9 Rhagfyr. Eglurodd y Cadeirydd fod hwn wedi bod yn gyfarfod defnyddiol iawn gyda thrafodaethau ar TB, Gwyliadwriaeth 2014, aôr Cynllun Tractor Coch. Cytunwyd y byddai Cadeirydd AHWBE yn cael ei wahodd i gyfarfod oôr GrÜp yn y dyfodol.

- Cafwyd trafodaeth hefyd ar y Grwpiau Iechyd a Lles Gwartheg a Defaid (CHAWG a SHAWG) aôu perthynas ag AHWBE. Cytunwyd y dylaiôr Ysgrifenyddiaeth ofyn am eglurhad.

Pwynt Gweithredu 2 ï Yr Ysgrifenyddiaeth i wahodd Cadeirydd Bwrdd Iechyd a Lles Anifeiliaid Lloegr i un o gyfarfodydd y dyfodol

Pwynt Gweithredu 3 ï Yr Ysgrifenyddiaeth i ofyn am eglurhad ar y berthynas rhwng CHA WG, SHAWG ac AHWBE

- GrÜp Llywio Parasitoleg Cymru ï Mae GrÜp Llywio Parasitoleg Cymru wedi cysylltu ©ôr Ysgrifenyddiaeth gan ei fod yn awyddus i feithrin cysylltiadau ©ôrGrÜp. Croesawodd y Cadeirydd hyn aôr awgrym y bydd GrÜp Llywio Parasitoleg Cymru yn anfon cofnodion ei gyfarfod diwethaf at yr Ysgrifenyddiaeth er mwyn iôrGrÜp gael gweld pa faterion oedd yn cael eu trafod.

Pwynt Gweithredu 4 ï Yr Ysgrifenyddiaeth i ddosbarthu cofnodion GrÜp Llywio Parasitoleg Cymru i aelodauôr GrÜp pan fydd wediôu cael .

- Cynllun Gweithredu Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru ï Eglurodd y Cadeirydd fod y GrÜp wedi cael cyfarfod cynllunio defnyddiol iawn ar 17 Chwefror. Yn y cyfarfod hwn dechreuodd y GrÜp gwmpasu blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn 2015/16. Roedd y rhain yn cynnwys;
  - BVD ï trwy waith yr Is-grÜp BVD
  - Y Clafr ï trwy waith yr Is-grÜp y Clafr
  - Ceffylau
  - Anifeiliaid bach syôn cael eu cadw
  - Codi ymwybyddiaeth o fioddiogelwch ac Ymwrthedd i Gyffuriau (AMR)

- CydnabuôrGrÜp fod llawer o waith iôwwneud o hyd ond rhaid canolbwyntio ar gyflawni. Cytunwyd y dylai aelodau anfon unrhyw syniadau / sylwadau ychwanegol drwyôr Ysgrifenyddiaeth cyn gynted © phosibl

Pwynt Gweithredu 5 ï Aelodauôr GrÜp i anfon unrhyw syniadau / sylwadau ychwanegol ar weithreduôr cynllun at yr Ysgrifenyddiaeth cyn gynted © phosibl .

5. Dywedodd y Cadeirydd hefyd ei fod wedi cael cyfarfodydd gyda Kevin Roberts ynglÛn ©ôi adroddiadau cydnerthedd ac Andy Richardson syôn bwrw ymlaen aôr adolygiad annibynnol ar y diwydiant llaeth yng Nghymru

Eitem Agenda 4: Ceffylau / Lles

6. Eglurodd Jo ei bod wedi bod yn bresennol mewn cyfarfod ar 10 Chwefror oôr óGrÜp Amddiffyn eich Ceffyl' aôi bod wedi cael trafodaethau © chysylltiadau pwysig yn y byd ceffylau. Cyflwynodd Jo bapur diweddaru byr i sylwôr GrÜp. Dywedodd hefyd y byddaiôn cynrychioli Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru yn y Fforwm Ceffylau Cenedlaethol ar 5 Mawrth. Cytunwyd mai elfen allweddol oôr cynllun gweithredu oedd sicrhau bod y fframweithiau cywir ar waith i alluogi ymgysylltu effeithiol © rhanddeiliaid a bydd yn golygu y bydd modd canfod y prif flaenoriaethau ar gyfer lles ceffylau. Roedd hyn yn berthnasol hefyd iôr gwaith y mae Ifan yn ei wneud ar anifeiliaid anwes. Dywedodd Ifan ei fod yntau hefyd wedi paratoi papur byr yn amlinellu syniadau rhagarweiniol ar sut y gellid bwrw ymlaen © hyn. Cytunodd y GrÜp y byddai hyn yn synhwyrol pe bai dulliau tebyg yn cael eu mabwysiadu ar gyfer y ddau faes a bod angen arweiniad pellach gan yr OCVO ar y cynigion rhagarweiniol hyn.

Pwynt Gweithredu 6 ï Yr Ysgrifenyddiaeth i drefnu cyfarfod © CVO Cymru aôr T´m Polisi Lles i ystyried syniadau rhagarweiniol y GrÜp ac i roi arweiniad ar y ffordd orau ymlaen.

7. Cafwyd diweddariad gan Christianne ar adroddiad Rhwydwaith Lles Anifeiliaid Cymru (AWN Cymru) ar Lochesi. Eglurodd ei bod hi ac Ifan wedi bod yn bresennol mewn cyfarfod © Chadeirydd AWN Cymru i drafod canfyddiadauôr adroddiad aôr camau nesaf. Croesawodd y GrÜp adborth oôr cyfarfod a chymeradwyodd y dull arfaethedig a oedd wediôi drafod. Cytunwyd y byddai Christianne a Chadeirydd y GrÜp yn ysgrifennu at Gadeirydd AWN Cymru yn dilyn y cyfarfod hwn.

Pwynt Gweithredu 7 ï CVO Cymru a Chadeirydd y GrÜp i ysgrifennu at Gadeirydd AWN Cymru .

Eitem Agenda 5: Treial C Ovis a Digwyddiad Fferm TAG

8. Croesawodd y Cadeirydd Emyr Owen o Fenter a Busnes iôr cyfarfod. Rhoddodd Emyr gyflwyniad iôr GrÜp ar elfen C.Ovis y prosiect TAG. Croesawodd y GrÜp y diweddariad a diolchodd i Emyr am ei gyflwyniad. Eglurodd Huw y bydd yr adroddiad terfynol ar y prosiect yn cael ei gyhoeddi ddechrau mis Mai. Buôr GrÜp yn trafod sut y byddaiôn ymdrin © chanlyniadauôr prosiect pan fyddant ar gael. Roedd y camau a awgrymwyd yn cynnwys rhoi ystyriaeth bellach iôr canlyniadau aôu cymharu ag astudiaethau eraill a gynhaliwyd, er enghraifft y gorgyffwrdd posibl ©ôr prosiect hydatid, ac o bosibl trafod © phobl fel yr Athro Eric Morgan o Brifysgol Bryste. Eglurodd Huw hefyd y byddai diwrnod agored yn cael ei gynnal ar 2 Mehefin aôr gobaith yw y bydd y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd yn gallu bod yn bresennol. Cadarnhaodd yr Aelodau y byddant

hwythau hefyd yn bresennol. Awgrymodd Christianne hefyd fod cyfle i gysylltu prif negeseuon y prosiect hwn ynghylch rhoi moddion llyngyr i gŴn ©ôr gwaith ar fioamrywiaeth

Pwynt Gweithredu 8 ï Huw i ystyried opsiynau ar gyfer ymdrin © chanlyniadauôr prosi ect TAG a chysyllti adau ag astudiaethau eraill.

Pwynt Gweithredu 9 ï Huw i hysbysuôr aelodau oôr trefniadau ar gyfer y diwrnod agored ar 2 Mehefin .

<u>Eitem Agenda 6: Is-grŴp BVD</u>

9. Croesawodd y Cadeirydd John Griffiths (Cadeirydd yr Is-grŴp BVD) iôr cyfarfod. Dywedodd fod gwaith wedi cael ei wneud ers y cyfarfod diwethaf i ddatblyguôr cynnig i ddileu BVD yng Nghymru, a bod hynny wedi cynnwys y cyfarfod © Terri Thomas i drafod y posibilrwydd o wneud cais am arian RDP. Cyflwynodd John bapur diweddaru byr iôr GrŴp. Roedd y GrŴp yn cydnabod y cynnydd syôn cael ei wneud a chafwyd trafodaeth ar y ffordd orau o fwrw ymlaen © hyn gyda golwg ar y cais am arian RDP. Er mwyn cynorthwyo John, cytunwyd y byddaiôn fuddiol i ystyried y posibilrwydd o benodi unigolyn pwrpasol i weithioôn gyfan gwbl ar y prosiect BVD er mwyn datblygu datganiad o ddiddordeb penodol a fyddaiôn cael ei ddilyn gan gynllun manwl. Eglurodd John hefyd ei fod yn trefnu nifer o ddigwyddiadau BVD ar 17 a 18 Mawrth a bod croeso i aelodauôr GŴp Fframwaith fod yn bresennol.

Pwynt Gweithredu 10 ï Yr Ysgrifenyddiaeth i ofyn am eglurhad pellach gan D´m Polisiôr RDP ar y manylion sydd eu hangen i baratoi datganiad o ddidd ordeb.

Pwynt Gweithredu 11 ï Moss i gwblhau templed achos bus nes ar gyfer adnodd pwrpasol i ddatblygu datganiad o ddiddordeb penodol a fyddaiôn cael ei ddilyn gan gynllun manwl ar gyfer Dileu BVD

Pwynt Gweithredu 12 ï John i anfon manylion am y digwyddiadau BVD arfaethedig at yr Ysgrifenyddiaeth er mwyn i Aelodau gael ystyried eu presenoldeb.

<u>Eitem Agenda 7: Is-grŴp y Clafr</u>

10. Gofynnodd y Cadeirydd i Moss am ddiweddariad ar waith GrŴp Gorchwyl a Gorffen y Clafr aôi adroddiad ar ddileuôr clafr yng Nghymru. Eglurodd Moss fod GrŴp Gorchwyl a Gorffen y Clafr wedi cwrdd ar 13 Chwefror. Cydnabuôr GrŴp faint o waith a oedd wediôi wneud i gynhyrchuôr adroddiad ar y Clafr ond roedd yn sylweddoli hefyd y byddaiôr awydd am well deddfwriaeth ar hyn o bryd yn rhywbeth anodd ei gyflawni yn enwedig gan fod y sail tystiolaeth i ddangos maint y broblem yng Nghymruôn wan. Cytunwyd y dylaiôr GrŴp edrych ar y posibilrwydd o gomisiynu astudiaeth i roi sylw i hyn ac roedd nifer o opsiynauôn cael eu hystyried. Eglurodd Moss hefyd ei fod wedi dechrau trafod codi ymwybyddiaeth a gwellaôr sail tystiolaeth gydag aelodau GrŴp Gorchwyl a Gorffen y Clafr i wneud penderfyniadau gwell ar sail gwybodaeth ar y ffordd ymlaen.

Pwynt Gweithredu 13 ï Jo, Ifan a Moss i ystyried yr opsiynau ar gyfer comisi ynu astudiaeth i ganfod pa mor gyffredin ywôr clafr yng Nghymru.

Pwynt Gweithredu 14 - Jo i gysylltuôn gyntaf ©ôr Athrawon Richard Wall ac Eric Morgan a ôu rhoi mewn cysylltiad ag Ifan a Moss.

<u>Eitem Agenda 8: Y Cysylltiad © Pholisi Bwyd</u>

11. Croesawodd y Cadeirydd Peredur John oôr T´m Polisi Bwyd. Estynnodd groeso hefyd i Karen Morgan, sydd ar fin dechrau yn ei swydd newydd fel Cynghorydd Amaethyddiaeth a Bwyd yn Llysgenhadaeth Prydain yn Beijing, Tsieina a Tim Brooks, Pennaeth Strategaeth Allforio, y T´m Hwyluso Masnach o Gyfarwyddiaeth Iechyd Planhigion ac Anifeiliaid, Defra. Roedd David Morris oôr T´m Polisi Bwyd wedi ymddiheuro am ei absenoldeb.

12. Eglurodd y Cadeirydd fod y cysylltiad © pholisi bwyd yn arbennig o bwysig gan mai un oôr canlyniadau strategol yn y Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid yw bod gan bobl hyder yn y ffordd y mae bwyd yn cael ei gynhyrchu a bod iechyd y cyhoedd yn cael ei warchod. Cafwyd diweddariad fel a ganlyn gan Peredur John;

¶ Tuag at Dwf Cynaliadwy ï Mae cynnydd daôn cael ei wneud tuag at gyflawniôr uchelgais a amlinellwyd yn óTuag at Dwf Cynaliadwy: Cynllun Gweithredu ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod 2014-2020ô i gyflawni twf o 30% yn y sectorau bwyd a diod i gyrraedd trosiant o Ã7 biliwn erbyn 2020. Eisoes gwelwyd twf o 10% yn nhrosiant y sector bwyd a diod a oedd yn werth Ã5.7 biliwn yn 2013.

¶ Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru - Yn ystod haf y llynedd penodwyd Robin Jones, Rheolwr Gyfarwyddwr The Village Bakery, fel Cadeirydd dros droôr Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod cysgodol. Yn ddiweddar gwahoddodd y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd aôr Cadeirydd dros dro gynrychiolwyr oôr diwydiant i ymuno ©ôr Bwrdd cysgodol. Maeôr Cadeirydd dros dro aôr Bwrdd cysgodol wedi cael eu gwahodd gan Weinidogion i gynnal ymarferiad recriwtio pellach i gynyddu dyfnder aelodaeth y Bwrdd, ac i annog ceisiadau gan grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Er bod yr ymarferiad ar waith, bydd y Bwrdd newydd yn gweithredu ar ffurf gysgodol, tan y lansiad llawn yn yr haf pan fydd ganddo aelodaeth lawn. Bydd cyfarfod cyntaf y Bwrdd cysgodol yn cael ei gynnal ar 11 Mawrth. Yn fewnol, cafodd cyfarfod rhagarweiniol o GrÙp Polisi Bwyd Llywodraeth Cymru ei gynnal ar 9 Ionawr 2015.

¶ Diogelwch bwyd a diogeluôr cyflenwad bwyd - Mae Llywodraeth Cymru yn aelod o GrÙp Cyswllt Argyfwng y Gadwyn Fwyd o dan arweiniad DEFRA, syôn cwrdd bob chwarter i drafod cydnerthedd y gadwyn fwyd, bygythiadau syôn dod iôr amlwg, parodrwydd am argyfyngau a materion eraill yn ymwneud © diogelwch bwyd / diogeluôr cyflenwad bwyd. Mae Llywodraeth Cymru yn bartner ac yn cyfrannu at Raglen Diogelwch Bwyd y Byd (GFSP); rhaglen amlasiantaethol i gydlynu ymchwil diogelwch bwyd rhwng gweinyddiaethau llywodraethau yn y DU, Cynghorau Ymchwil y DU aôr Bwrdd Strategaeth

Technoleg. Maeôr Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwydwedi cynnal cyfarfodydd rhagarweiniol © Chadeirydd, Prif Swyddog Gweithredol a Phennaeth Swyddfa Cymru'r Asiantaeth Safonau Bwyd (FSA) ac roedd yn westai yng nghinio Bwrdd yr FSA ar 27 Ionawr.

¶ Bydd y Sympo siwm Ewrop eaidd ar Ddiogelwch Bwyd 2015, syôn gweithredu fel fforwm ar gyfer diwydiant, llywodraethau ac academia i ffurfio dyfodol diogelwch bwyd yn cael ei gynnal yng Nghaerdydd ar 20-22 Ebrill.

¶ Y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol (NPS) ï Mae gwaith yn mynd ymlaen ar Gaffael Cyhoeddus ©ôr NPS. Mae papur ymchwil wediôi gomisiynu ar yr opsiynau posibl sydd ar gael ar gyfer canolfannau caffael iôr sector cyhoeddus yng Nghymru.

¶ Siarter Cynaliadwyedd Llywodraeth Cymru ï Mae sylwôn cael ei roi i Siarter Cynaliadwyedd Llywodraeth Cymru gyda golwg ar annog cwmnµau bwyd i lofnodiôr siarter ar ¹l ymrwymo i amcan datblygu cynaliadwy a all o bosibl gael ei gysylltu ag ymyriadau cymorth busnes eraill Llywodraeth Cymru.

¶ Darparwyr Gwasanaethau Amgylcheddol ï Yn ystod yr hydref cynhaliwyd gweithdy gyda darparwyr gwasanaethau amgylcheddol i gofnodi eu cynigion i fusnesau, i edrych ar yr opsiynau i sefydlu grÛp gorchwyl a gorffen gwasanaethau amgylcheddol / effeithlonrwydd adnoddau, i ddatblygu ymyriad effeithlonrwydd adnoddau ar gyfer busnesau bwyd iôw galluogi i leihau eu h¹l troed amgylcheddol.

¶ WRAP ï Mae gwaith yn cael ei wneud © WRAP a phartneriaid eraill i ddatblygu dadansoddiad o lwybr cynnyrch bwyd i ganfod effeithiau amgylcheddol cynhyrchu / gweithgynhyrchu bwyd.

¶ Cymru Effeithlon (REW) Mae gwaith yn cael ei wneud drwy Wasanaeth REW. Bydd y gwaith o hyrwyddo gwasanaeth Cymru Effeithlon iôr diwydiant bwyd / diod yn cael ei wneud drwy weithdy ar gyfer y diwydiant a drefnir gan WRAP ar gyfer 10 Mawrth.

¶ Bydd gweithdy ar Dlodi Bwyd yn cael ei gynnal ar 31 Mawrth.

13. Diolchodd y GrÛp i Peredur am ei ddiweddariad. Cytunwyd fod angen perthynas waith agos © Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru.

14. Cafodd Karen ei llongyfarch gan y Cadeirydd ar ei phenodiad a dymunodd yn dda iddi yn ei swydd newydd.

Pwynt Gweithredu 15 ï Peredur i roi dadansoddiad oôr ffigur o dwf o 10%

<u>Eitem Agenda 9: Diweddariad gan Filfeddygon Llywodraeth Cymru</u>

15. Croesawodd y Cadeirydd filfeddygon Llywodraeth Cymru, Arjen Brouwer, Gavin Watkins a Les Eckford iôrcyfarfod. Cafwyd cyflwyniad byr gan bob un oôrmilfeddygon ar eu sgiliau aôumeysydd gwaith. Cafwyd trafodaeth ar r¹l y GrÙp mewn argyfwng clefydau. Cytunwyd y dylai hwn gael ei drafod mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Pwynt Gweithredu 16 ï Yr Ysgrifenyddiae th i gysylltu ©ôrT´m Polisi Clefydau Ecsotig ynghylch paratoi Eitem Agenda ar Gynllunio Wrth Gefn ar gyfer cyfarfod yn y dyfodol .

## Eitem Agenda 10: Smarter Rules for Safer Food

16. Croesawodd y Cadeirydd Les Eckford iôr cyfarfod. Cyflwynodd Les ddiweddariad ar becyn Smarter Rules for Smarter Food yr UE. Roedd y GrÙp yn cydnabod bod hyn yn hanfodol ac yn ddarn anferth o waith. Roedd y GrÙp yn derbyn y byddaiôn rhaid iddo gyfrannu at ei ddatblygiad wrth iôr gwaith fynd yn ei flaen a hefyd annog cyfranogiad rhanddeiliaid.

Pwynt Gweithredu 17 ï Yr Ysgrifenyddiaeth i anfon copi oôr cyflwyniad at y GrÙp

## Eitem Agenda 11: Ymgyrch Bioddiogelwch 2015/16

17. Croesawodd y Cadeirydd Sharon Rogers (Swyddog Cyfathrebu OCVO) iôr cyfarfod. Eglurodd fod y GrÙp yn gyt¾n bod codi ymwybyddiaeth a chodi safonau bioddiogelwch ymhlith ei brif flaenoriaethau. Buôr GrÙp yn trafod opsiynau posibl ar yr hyn y gellid ei gyfrannu at yr ymgyrch bioddiogelwch. Roedd y prif ffactorau a ystyriwyd yn cynnwys ymgysylltu © milfeddygon, ffermwyr ifanc, sioeau amaethyddol ac ati. Awgrymwyd hefyd y gellid datblygu astudiaeth achos i ddilyn ffermwr a hefyd hyrwyddo negeseuon bioddiogelwch fel rhan o becyn ehangach e.e. drwyôr cynllun dileu BVD aôr Rhaglen TB. Cytunwyd y byddai Sharon yn gweithredu ar y syniadau ac yn datblygu ymgyrch ddrafft.

Pwynt Gweithredu 18 ï Sharon i baratoi ymgyrch bioddiogelwch drafft

## Eitem Agenda 12: Llawlyfr C lefydau Gwartheg

18. Croesawodd y Cadeirydd Phil Roberts (T´m Polisi) iôrcyfarfod. Cyflwynodd Phil ei Lawlyfr Clefydau Gwartheg drafft. Diolchodd y Cadeirydd i Phil a chytunodd y GrÙp ei fod yn hapus i gymeradwyoôr llyfryn yn amodol ar newidiadau iôr drafft terfynol yn ymwneud © phrofion cyn symud. Eglurodd Phil fod disgwyl y bydd y llyfryn yn cael ei lansio yn y Ffair Wanwyn.

Pwynt Gweithredu 19 ï Phil i fwrw ymlaen © chynhyrchuôr llawlyfr aôr cynlluniau ar gyfer ei lansio aôi ddosbarthu .

## Eitem Agenda 13: Diweddariad ar y Gwaharddiad Symud 6 diwrnod

19. Croesawodd y Cadeirydd Tony Joss iôr cyfarfod. Cafwyd diweddariad gan Tony ar y gwaharddiad symud 6 diwrnod a chyflwynodd bapur a oedd yn cynnwys amserlen ar gyfer y camau nesaf. Cydnabuôr GrÜp fod hyn wedi golygu llawer iawn o waith ac roedd yn ymwybodol hefyd oôrcymhlethdodau syôn gysylltiedigag IT.

20. Cafodd y GrÜp hefyd ddiweddariad gan Tony ar gynigion Defra i adolyguôr broses iawndal pe ceid achosion o glefyd hysbysadwy. Eglurodd Tony fod Llywodraeth Cymru yn rhan oôr broses hon ac y byddaiôr GrÜp yn cael ei hysbysu o unrhyw ddatblygiadau yn ¹l yr angen.

Eitem Agenda 10: Unrhyw Fusnes Arall

21. Nododd Ifan fod Awdurdod T©n ac Achub Gogledd Cymru wedi cyhoeddi ei fod yn rhoiôr gorau i achub anifeiliaid eleni a bod angen bod yn ymwybodol oôr goblygiadau posibl o ran lles.

22. Cynhelir cyfarfod nesaf y GrÜp ddydd Mercher 3 Mehefin 2015.

GORFFEN